

## PWYLLGOR ARCHWILIO

DYDD MAWRTH, 8 MEDI 2020

Yn bresennol: Aelodau Annibynnol: David Hugh Thomas (Cadeirydd)  
Gavin McArthur a/ac David Price  
Councillors Cunnah, Goodway, Howells, Lister, McKerlich  
a/ac Williams

### 23 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Simmons.

### 24 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganwyd y buddiannau canlynol:

Y Cynghorydd McKerlich	Eitem 4.2 ar yr Agenda	Diddordeb Personol fel llofnodwr posibl ar Ddatganiad o Gyfrifon yng nghyfarfod y Cyngor yn y dyfodol
------------------------	------------------------	---

Y Cynghorydd Goodway	Eitem 4.2 ar yr Agenda	Diddordeb Personol fel aelod o gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg
----------------------	------------------------	--

### 25 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2020 fel cofnod cywir gan y Pwyllgor.

Cyllid

### 26 : DIWEDDARIAD AR GYLLID GAN GYNNWYS MATERION GWYDNWCH

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau ddiweddariad ar lafar am gyllid gyda throsolwg ar faterion cysylltiedig â Covid-19 o ran y cynllun ariannol tymor canolig a'r strategaeth gyllidebol.

Dywedwyd wrth yr Aelodau mai cyfanswm gwariant y Cyngor sy'n gysylltiedig â Covid hyd at 31 Gorffennaf 2020 oedd tua £25.8 miliwn. Roedd hyn yn ymwneud â meysydd fel darparu Cyfarpar Diogelu Personol, darparu pryduau ysgol am ddim a gwaith ym maes gofal cymdeithasol i oedolion. Mae cyfanswm o £21.4 miliwn o hawliadau wedi eu gwneud hyd at ddiwedd mis Mehefin, ac mae ychydig dan £20 miliwn ohono wedi cael ei adennill. Mae'r awdurdod yn parhau i bwysu ar Lywodraeth Cymru am ad-dalu unrhyw wariant yn llawn.

Yn ogystal â gwariant, ceir effaith sylweddol hefyd o golli incwm, yn enwedig o ran cyfleusterau parciau, diwylliant a hamdden. Y swm a gollwyd hyd at ddiwedd y chwarter cyntaf ym mis Gorffennaf oedd tua £13.3 miliwn. Mae proses hawlio ar waith. Mae'r gyfran gyntaf wedi sicrhau £8.7 miliwn a bydd hawliad arall yn cael ei gyflwyno i adennill gweddill y golled mewn incwm.

Nododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y bydd cryn dipyn o effeithiau ychwanegol sylweddol ar wariant ac incwm yn ystod gweddill y flwyddyn a bydd angen i'r awdurdod barhau i fonitro'r effeithiau hyn. O safbwynt sicrwydd ac archwilio, roedd rhywfaint o gysur bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol.

Yn y flwyddyn gyfredol, mae cyllidebau cyfarwyddiaethau yn parhau i gael eu monitro. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn y dyfodol agos yn nodi sefyllfa Mis 4 a bydd copi o'r adroddiad hwnnw'n cael ei ddsbarthu i aelodau'r Pwyllgor. Mae llawer o feysydd gwasanaeth dan bwysau. Mae rhywfaint o bwysau'n ymwneud ag anawsterau wrth weithredu cynigion cynilo yn ystod pandemig Covid-19, er bod arbedion eraill yn cael eu gwneud i wrthbwysu'r rhain.

Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai adroddiad pellach ar y strategaeth ariannol tymor canolig yn cael ei ddwyn gerbron y Cabinet a'r Cyngor yn y drefn honno. Byddai aelodau'r Pwyllgor hefyd yn cael copi o'r adroddiad hwnnw. Darparodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol drosolwg o faterion yn ymwneud â pandemig Covid-19 a'u heffaith ar y bwlch ariannu rhagamcanol. Cododd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bryderon hefyd bod Setliad Llywodraeth Cymru yn debygol o ddod i law yn hwyr yn y flwyddyn.

## 27 : DATGANIAD CYFRIFON DRAFFT 2019-20 A DIWEDDARIAD AR ARCHWILIO

*Datganodd y Cyngorwyr Goodway a McKerlich fuddiannau personol yn yr eitem hon. Mae'r Cyngorydd Goodway yn aelod o Gronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro. Efallai y gofynnir i'r Cyngorydd McKerlich fod yn llofnodwr y Datganiad Cyfrifon terfynol mewn cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol.*

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi cyfle i Aelodau adolygu a rhoi sylwadau ar y Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer 2019/20. Llofnodwyd cyfrifon Cyngor Caerdydd gan gynnwys Awdurdod yr Harbwr a Chronfa Bensiwn Caerdydd a'r Fro gan y Swyddog Adran 151 ar 15 Mehefin 2020 a 17 Gorffennaf 2020 yn y drefn honno. Darparodd swyddogion grynodeb o'r adroddiad cyffredinol.

Darparodd cydweithwyr o Archwilio Cymru ddatganiad sefyllfa o ran archwilio Datganiad Cyfrifon drafft 2019/20.

Gofynnodd Aelod am eglurhad pellach ar lefel y ddyled sy'n ddyledus i'r Cyngor ac a oedd y ffigur yn cynnwys rhenti o isadran ystadau'r Cyngor. Dywedodd swyddogion fod y ffigur yn ymwneud â mân ddyledion drwy gyfrifon derbyniadwy ac felly nad oedd rhenti wedi'u cynnwys yn y ffigur.

Gofynnodd Aelod i swyddog egluro'r 'costau sylweddol' y cyfeirir atynt yn yr adroddiad o ran addasu ar gyfer camddatganiadau. Nododd swyddogion fod y costau'n ymwneud ag adnoddau staffio.

Wrth ymateb i gwestiwn gan Aelod, dywedodd swyddogion fod y cyfrifon ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ar wefan y Cyngor yn ystod cyfnod cloi Covid-19 yn unig.

Gofynnodd yr Aelodau pam nad yw cost 'untro' taliadau diswyddo yn gwahaniaethu rhwng cost taliadau dileu swyddi a chyfraniadau pensiwn. Dywedodd swyddogion fod y ffigur yn ymwneud â'r ffigur datgelu sy'n ofynnol gan y cod CIPFA. Gofynnodd

Aelod p'un a oedd rheolwyr yn ymwybodol o gost taliadau straen pensiwn yn ystod y broses dileu swyddi wirfoddol. Dywedwyd wrth yr Aelodau, pan dderbynnir datganiad o ddiddordeb mewn dileu swyddi gwirfoddol, ei bod yn ofynnol llunio achos busnes i sicrhau bod unrhyw gostau dileu swyddi, gan gynnwys straen pensiwn, yn cael eu hadennill dros gyfnod o bum mlynedd.

Cytunodd swyddogion i adolygu ac egluro'r geiriad a ddefnyddir i gategoreiddio pecynnau ymadael (gorfodol, gwirfoddol ac eraill) yn y tabl yn adran 8.4 o'r Datganiad Cyfrifon. Byddai'r Pwyllgor yn cael y gofynion polisi ar gyfer ystyriaethau diswyddo a chymeradwyaeth.

Trafododd y Pwyllgor hefyd y posibilrwydd o gynnull cyfarfod arbennig i dderbyn adroddiad Archwilio Cymru ar y datganiadau o gyfrifon.

Rhoddodd Phil Pugh o Archwilio Cymru ddiweddariad ar lafar ar gynnydd yr archwiliad gan gynnwys effaith Covid-19 ar y dull archwilio a materion allweddol a ddaeth i'r amlwg hyd yma.

Gan fyfyrir ar y datganiad naratif, a oedd yn cynnwys bwloch y gyllideb, cynigiodd y Cadeirydd fân ddiwygiad i Farn y Pwyllgor Archwilio a gynhwysir yn Adroddiad Blyneddol y Pwyllgor Archwilio 2019/20 a Datganiad Llywodraethu Blyneddol 2019/20. Roedd y diwygiad arfaethedig i adran 6.1 fel a ganlyn:

#### **“6.1 Rheoli Cyllidebau**

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cydnabod y pwysau ariannol parhaus sydd ar y Cyngor ac yn nodi, er bod y sefyllfa ariannol yn gytbwys, bu gan rai cyfarwyddiaethau penodol orwariant sylweddol, a bu angen gwella'r rheolaethau.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn parhau i godi pryderon am y rheolaethau sydd ar waith o fewn cyfarwyddiaethau i gyflawni cynigion arbedion cyllideb a gyflwynwyd, a bydd yn parhau i atgyfnerthu'r disgwyliadau ar gyfer cyflawni yn y flwyddyn i ddod.

Mae rheoli cyllidebau yn arbennig o berthnasol ar hyn o bryd o ystyried y pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth iddynt ymateb i gefnogi'r anghenion economaidd a chymdeithasol a gyflwynir gan argyfwng COVID-19. Mae'r amgylchedd digynsail hwn yn dilyn nifer o flynyddoedd lle mae'r paramedrau ariannol y mae'r Cyngor yn gweithredu oddi mewn iddynt wedi'u cyfyngu. Bydd y Pwyllgor ~~â diddordeb~~ yn craffu'n ofalus ar y ffordd y rheolir y gyllideb dros y flwyddyn i ddod drwy reolaethau ac ymyriadau rheoli priodol, lle bo angen, a bydd yn parhau i atgyfnerthu disgwyliadau ar gyfer cyflawni o ystyried y pwysau ariannol sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor.”

Trafododd y Pwyllgor y gwelliant arfaethedig hwnnw.

PENDERFYNWYD -

- (1) Bod y Pwyllgor yn nodi Datganiad Cyfrifon Cyngor Caerdydd 2019/20 gan gynnwys Awdurdod Harbwr Caerdydd a Chronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg;

- (2) Swyddogion Cyllid i adolygu / egluro'r geiriad a ddefnyddir i gategoreiddio pecynnau ymadael (gorfodol, gwirfoddol ac eraill) yn y tabl yn adran 8.4 o'r Datganiad Cyfrifon.
- (3) Y Pwyllgor Archwilio i dderbyn y gofynion polisi ar gyfer ystyriaethau taliad diswyddo a chymeradwyaeth
- (4) Cytunodd y Pwyllgor y bydd y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â swyddogion, yn penderfynu a fydd y datganiadau archwiliedig, cyn eu cyflwyno i'r Cyngor, yn cael eu cyflwyno mewn cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Archwilio neu'n cael eu hanfon yn electronig at y Pwyllgor ym mis Hydref ynghyd â'r adroddiadau archwilio terfynol i gael sylwadau arnynt;
- (5) Mae'r Pwyllgor yn nodi cynnydd Archwilio Cymru mewn perthynas â'r archwiliad allanol o ddatganiadau 2019/20
- (6) Cymeradwyodd y Pwyllgor y cynnig i addasu'r geiriad yn ei farn flynyddol yn 2019/20 fel y nodir uchod.

28 : ARCHWILIO CYMRU

29 : DIWEDDARIAD AR GYNNYDD GWEITHGARWCH/ADRODDIAD  
ARCHWILIO CYMRU

Cyflwynodd Samantha Clements o Archwilio Cymru y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen waith i'r Pwyllgor. Dywedwyd wrth yr Aelodau mai ychydig o newid a fu i'r rhaglen waith ers diweddariad diwethaf y Pwyllgor. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi crynodeb sydd bellach wedi'i gynnwys ar ddiwedd y diweddariad cynnydd, a oedd yn cysylltu nifer o adroddiadau cenedlaethol.

30 : ADRODDIAD GWRTH-DWYLL CENEDLAETHOL: 'COD EIN GÊM - MYND I'R AFAEL Â THWYLL YNG NGHYMURU'

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi trosolwg o ganfyddiadau adroddiad cenedlaethol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o'r enw 'Codi Ein Gêm' - Trechu Twyll yng Nghymru.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad ym mis Mehefin 2019 – 'Trefniadau Gwrth-dwyll yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru' a dderbyniodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Medi 2019. Roedd yr adroddiad, a ddilynodd gynhadledd undydd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn rhoi trosolwg o lefelau twyll yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru ynghyd â disgrifiad o drefniadau gwrth-dwyll ar draws Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol a'r GIG. Roedd yr adroddiad dilynol 'Codi Ein Gêm' ym mis Gorffennaf 2020 yn seiliedig ar raglen fwy helaeth o waith maes gyda'r archwiliad yn seiliedig ar saith prif lwybrau ymholi:

- Arweinyddiaeth a diwylliant
- Fframweithiau rheoli a rheoli risg
- Polisiau a hyfforddiant
- Capasiti ac arbenigedd
- Offer a data

- Cydweithio
- Adrodd a chraffu

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad ar ganfyddiadau'r adroddiad gan Ian Phillips o Archwilio Cymru.

Cytunodd y Pwyllgor i gadw cwestiynau ar yr eitem hon hyd nes y daw'r eitem ganlynol ar yr agenda i ben.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

31 : ARCHWILIO MEWNOL

32 : ADRODDIAD GWRTH-DWYLL BLYNYDDOL 2019/20

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio adroddiad yn rhoi trosolwg o weithgareddau a chanlyniadau gwrth-dwyll yr awdurdod dros y deuddeg mis blaenorol. Canolbwyntiodd yr adroddiad ar waith y Tîm Ymchwilio corfforaethol a darparodd werthusiad o'r materion gwrth-dwyll, y datblygiad a'r canlyniadau ledled y Cyngor, yn unol â'r Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredigaeth a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Gorffennaf 2019.

Cydnabu swyddogion fod mwy o berygl o dwyll wrth i droseddwr geisio manteisio ar argyfwng Covid-19. Rhoddwyd gwybodaeth ac arweiniad i gyfarwyddiaethau er mwyn parhau i fod yn wylidwrus a chryfhau cydnerthedd yn y maes hwn.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i ofyn cwestiynau. Mewn ymateb i gwestiwn rhoddodd y Rheolwr Archwilio fanylion yr ymgyrch ymwybyddiaeth o dwyll a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Thîm Cyfathrebu'r Cyngor yn ystod Wythnos Ymwybyddiaeth Twyll ym mis Tachwedd 2019.

Gofynnodd aelodau'r Pwyllgor am ragor o wybodaeth am yr ymchwiliad a gynhaliwyd ar y Cynllun Bathodyn Glas. Cadarnhaodd swyddogion fod yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar gamddefnyddio Bathodynnau Glas, yn hytrach na chymhwysedd.

Roedd yr Aelodau'n falch o nodi bod Swyddfa Archwilio Cymru yn fodlon ar drefniadau gwrth-dwyll yr awdurdod. Gofynnodd yr Aelodau am ymateb y Cyngor i feysydd i'w gwella a nodwyd yn yr adroddiad mewn perthynas ag asesiadau risg cyfarwyddiaethau a chael eglurhad arnynt.

Cyfeiriodd Aelod at yr ystod eang yn y gwerth amcangyfrifedig yn lefel y twyll a nodir yn yr adroddiad cenedlaethol. Holodd yr Aelod a oedd yr amcangyfrif yn seiliedig ar dystiolaeth gan na chyfeiriwyd at hyn. Gofynnodd yr Aelod hefyd a oes gan Swyddfa Archwilio Cymru unrhyw argymhellion o ran y trefniadau y dylai'r Cyngor eu rhoi ar waith i osgoi diffyg cydgysylltu a gwella ansawdd ei gwaith gwrth-dwyll. Dywedodd Ian Phillips ar ran Swyddfa Archwilio Cymru fod llawer o'r trefniadau y mae angen iddynt fod ar waith yng Nghaerdydd, ac a argymhellir yn yr adroddiad, eisoes ar waith.

Gofynnodd yr Aelodau i'r Rheolwr Archwilio wneud sylwadau ynghylch a oedd yn credu bod y ffocws ar wrth-dwyll yng Nghaerdydd ar lefel briodol; nodi ble yng Nghaerdydd yr oedd y risg fwyaf o dwyll; ac a ymchwiliwyd i bob achos o dwyll a

ddygydd i'r Tîm Ymchwiliadau. Dywedodd y Rheolwr Archwilio fod ymdeimlad dim goddefgarwch yn bodoli ac yr ymchwilir i bob achos. Roedd y Rheolwr Archwilio o'r farn bod rôl yr Archwilio Mewnol wedi'i hehangu ond nad yw sicrwydd o ran cywirdeb ariannol wedi'i wanhau. Mae ffyrdd modern o archwilio yn golygu bod y tîm yn gallu cyflawni mwy gyda llai o adnoddau. Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus yn golygu bod disgwyl i'r Archwiliad Mewnol edrych ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys perfformiad, llywodraethu a rheoli risg. Cadarnhaodd y Rheolwr Archwilio fod sicrwydd a deallusrwydd yn dangos bod y risg fwyaf o dwyll yn dod o ffynonellau allanol.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r adroddiad.

33 : RHEOLAETH TRYSORLYS

34 : ADRODDIAD AR BERFFORMIAD

Cyflwynodd Rheolwr Gweithredol(RhG) Cyfalaf, Corfforaethol a'r Trysorlys Adroddiad Perfformiad Rheoli'r Trysorlys.

Tynnodd yr adroddiad sylw at lefel y buddsoddiadau a ddelir a rhoddodd esboniad o'r rhesymau pam mae'r balans arian parod yn uwch nag a ddisgwylid fel arfer. Darparodd yr adroddiad rywfaint o wybodaeth gefndirol hefyd ynghylch y gwaith o gynnal buddsoddiadau.

Roedd benthycia ar 31 Gorffennaf 2020 yn £828.2 miliwn gyda chyfradd llog gyfartalog o 4.11%. Cyfanswm y llog a oedd yn daladwy ar fenthycia oedd £34.1 miliwn gan gynnwys llog sy'n daladwy i'r Cyfrif Refeniw Tai.

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi bod y gostyngiad yng nghyfradd y llog a dderbyniwyd o falansau buddsoddi a ragwelwyd yn flaenorol o ganlyniad i'r gostyngiad yng nghyfradd sylfaenol Banc Lloegr i 0.1%.

Nid oes unrhyw fenthyciad newydd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn hyd yma.

Cyfeiriodd Aelod at y lefel fenthycia fewnol a ragwelir a nodir yn yr adroddiad. Gofynnwyd i'r swyddog egluro pam y defnyddir balansau arian parod i dalu am wariant cyfalaf. Dywedwyd wrth yr Aelodau y telir am wariant cyfalaf drwy fenthycia yn y rhan fwyaf o achosion. Fodd bynnag, defnyddir benthycia mewnol i dalu am wariant a thrwy hynny ohirio benthycia.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi adroddiad perfformiad Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 31 Gorffennaf 2020.

35 : ADRODDIAD BLYNYDDOL

Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2019/20. Darparwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio cyn ei gyflwyno i'r Cyngor yn unol â Pholisi Rheoli Trysorlys y Cyngor.

Tynnodd y Rheolwr Gweithredol (RhG), Cyfalaf, Corfforaethol a'r Trysorlys sylw at yr adroddiadau a dderbyniwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Archwilio a'r gwaith a wnaed yn seiliedig ar yr argymhellion a wnaed gan Aelodau, gan gynnwys adolygiad

annibynnol o reolaeth y trysorlys; adroddiad archwilio mewnol ar swyddogaeth y trysorlys; ac adroddiad meincnodi sy'n rhoi cyd-destun ychwanegol i'r Pwyllgor o swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys.

Roedd yr adroddiad yn nodi lefel y benthyca, balansau buddsoddi, cost benthyca a llog a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2020. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys nifer o ddangosyddion sy'n ofynnol fel rhan o God Rheoli'r Trysorlys. Bydd y Cyngor yn derbyn yr adroddiad fel rhan o'r Datganiad o Gyfrifon.

Tynnodd y Rheolwr Gweithredol sylw at y materion allweddol a gyflwynwyd yn ystod 2020/21, gan gynnwys adolygu polisi benthyca BBGC.

Cyfeiriodd Aelod at broffil benthyca a phryd y bydd y benthyca'n aeddfedu. Gofynnodd yr Aelodau am fanylion y gyfradd benthyca bresennol gan y BBGC ac a yw'n rhesymol dweud bod yr awdurdod, wrth i ddyledion aeddfedu, yn gallu mireinio ar gyfradd well nag y mae'n ei dalu ar hyn o bryd. Dywedodd y Rheolwr Gweithredol mai'r llog cyfartalog sy'n daladwy ar ddyled yw 4.11%. Cymerwyd benthyca diweddar ar tua 1.4%. Bu gostyngiad sylweddol mewn cyfraddau benthyca dros y misoedd diwethaf o ganlyniad i'r pandemig Covid-19.

Gofynnodd Aelod beth oedd y goblygiadau pe bai'r awdurdod yn mynd y tu hwnt i'w ffin weithredol ar gyfer lefel benthyca allanol ac a oedd angen i'r adroddiad gynnwys rhywfaint o naratif ychwanegol i egluro beth yw'r ffin weithredol. Cytunodd swyddogion i nodi a myfyrio ar y sylw.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor hefyd nodi gwall teipograffyddol ar dudalen 7 yr Adroddiad Blynyddol.

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi Adroddiad Rheoli'r Trysorlys Blynyddol 2019/20.

36 : CAMAU SY'N WEDDILL

PENDERFYNWYD – Bod y camau sy'n weddill yn cael eu nodi.

37 : GOHEBIAETH

Nododd y Pwyllgor ohebiaeth ddiweddar a dderbyniwyd gan Gadeirydd y Pwyllgor ynghylch Gwasanaeth Troseddwr Ifanc Caerdydd ac ateb y Cadeirydd.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r Pwyllgor Archwilio, o leiaf unwaith y flwyddyn, gael rhestr o adroddiadau sicrwydd / rheoleiddio / arolygu allanol sydd ar ddod, sgoriau sicrwydd yr adroddiadau a dderbyniwyd, a syniad o'r cynnydd o ran cyflawni camau gwella.

38 : DIWEDDARIAD AR Y RHAGLEN WAITH

PENDERFYNWYD – nodi'r diweddariad ar y cynllun gwaith.

39 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Ni nodwyd unrhyw eitemau brys.

40 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 17 Tachwedd 2020

Daeth y cyfarfod i ben am 4.10 pm